DAVIES, DAVID CHRISTOPHER (1827 - 1885), daearegwr a pheiriannydd mwnawl

Enw: David Christopher Davies
Dyddiad geni: 1827
Dyddiad marw: 1885
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: daearegwr a pheiriannydd mwnawl
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Peirianneg, Adeiladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Natur ac Amaethyddiaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: Frederick John North

Ganwyd yng Nghroesoswallt, a phrentisiwyd ef gyda haearnwerthwr. Dechreuodd ymddiddori yng nghreigiau'r ardal ac ymunodd â'r Oswestry Naturalists Field Club. Yn 1852 ymsefydlodd fel peiriannydd mwnawl a bu'n llwyddiannus yn yr alwedigaeth hon - yn enwedig yng Ngogledd Cymru, ac yn Ffrainc, yr Almaen, a Norwy hefyd.

Cyhoeddodd lyfryn at wasanaeth ymwelwyr â Llangollen a'r cylch - cafwyd 3ydd argraffiad ohono yn 1864. Ceisiodd yn hwn esbonio rhai o ddiddordebau daearegol yr ardal. Gwnaeth gyfraniadau gwerthfawr tuag at gynnydd gwybodaeth o ddaeareg Gogledd Cymru gyda'i erthygiau yn y *Geological Magazine*, *Proceedings of the Geologists' Association*; ysgrifennodd hefyd erthyglau i'r *British Architect* a'r *British Quarterly*. Enillodd wobrau mewn eisteddfodau, e.e. ' The Metalliferous Deposits of Denbighshire and Flintshire ' (Caernarfon, 1880), a ' The Fisheries of Wales ' (Lerpwl, 1884). Ymysg ei lyfrau ar ddaeareg economyddol y mae *Treatise on Slate and Slate Quarrying in North Wales*, 1878 ac 1880; *Treatise on Earth Minerals and Mining*, 1884; a *A Treatise on Metalliferous Minerals and Mining*, 1880; gadawodd ar ei ôl draethawd anorffenedig ar ddaeareg Gogledd Cymru. Yr oedd hefyd yn bregethwr lleygol, a chyhoeddodd gyfrol o bregethau - *The Christ for all the Ages*. Bu farw ar ei ffordd adref o daith busnes yn Norwy, 19 Medi 1885.

Awdur

Frederick John North, (1889 - 1968)

Ffynonellau

Quarterly Journal of the Geological Society of London, xiii, 43

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: David Christopher Davies

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 276460546

Wikidata: Q18559712

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu